



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 1988 (Cy.219)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Cocos a Chregyn
Gleision (Ardal Benodedig)
(Cymru) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn cymryd lle Is-ddeddf 5 (Trwydded i Bysgota am Gocos (*Cerastoderma edule*) a Chregyn Gleision (*Mytilis edulis*)) y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru blaenorol ("y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr").

Diddymwyd y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr, o ran Cymru, ar 1 Ebrill 2010 pan ddiddymwyd Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 gan adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009").

Mae Is-ddeddf 5 y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr wedi cael effaith ers 1 Ebrill 2010 fel pe bai wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol, yn rhinwedd erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 ("Gorchymyn 2010") ac Atodlen 4 iddo.

Daw Is-ddeddf 5 y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr i ben ar 31 Awst 2011, ac y mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn cymryd lle darpariaethau'r Is-ddeddf honno.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i eithriadau a ddatgenir, yn gwahardd pysgota am gocos a chregyn gleision o fewn yr ardal benodedig onid ymgymerir â'r gweithgaredd hwnnw yn unol â thrwydded a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd fod deiliaid trwydded, tra'n pysgota o fewn yr ardal benodedig, yn gallu dangos trwydded os gofynnir iddynt.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 1988 (W.219)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Cockles and Mussels
(Specified Area) (Wales) Order
2011

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, which applies in relation to Wales, revokes and replaces Byelaw 5 (Permit to Fish for Cockles (*Cerastoderma edule*) and Mussels (*Mytilis edulis*)) of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee ("the Sea Fisheries Committee").

The Sea Fisheries Committee was abolished, in relation to Wales, on 1 April 2010 when the Sea Fisheries Regulation Act 1966 was repealed by section 187 of the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the 2009 Act").

Byelaw 5 of the Sea Fisheries Committee has had effect since 1 April 2010 as if made by the Welsh Ministers in a statutory instrument by virtue of article 13(3) of and Schedule 4 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010 ("the 2010 Order").

Byelaw 5 of the Sea Fisheries Committee expires on 31 August 2011 and this Order revokes and replaces the provisions of that Byelaw.

Article 3 of this Order prohibits, subject to the stated exceptions, fishing for cockles and mussels within the specified area unless that activity is undertaken in accordance with a permit issued by the Welsh Ministers. It also requires that permit holders must be able to produce a permit, when asked, whilst fishing within the specified area.

Yr ardal benodedig yw'r rhan honno o Gymru a oedd gynt yn ffurfio rhan o ddosbarth y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr.

Mae'r eithriadau i'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 yn ymwneud ag unigolion sy'n cymryd â llaw, ddim mwy na 5kg o gocos a 5kg o gregyn gleision ar unrhyw un diwrnod, rhai sy'n cymryd cocos a chregyn gleision tra bônt ar fwrdd cwch pysgota Prydeinig cofrestredig a rhai sy'n cymryd cocos a chregyn gleision yn unol â Gorchymyn a wnaed o dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967.

Mae erthygl 4 yn darparu y bydd trwydded yn ddilys rhwng 1 Medi mewn un flwyddyn a 31 Awst yn y flwyddyn ddilynol.

Mae erthygl 5 yn darparu bod rhaid i gais am drwydded gael ei wneud i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ac ynghyd â pha bynnag brawf adnabod a phrawf cyfeiriad, sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'n darparu hefyd y caniateir gwneud ceisiadau o'r fath ar neu ar ôl 1 Gorffennaf yn y flwyddyn y bwriedir i'r drwydded y gwneir cais amdani gychwyn.

Mae erthygl 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi trwydded i unrhyw berson a oedd yn dal trwydded gyffelyb i bysgota am gocos a chregyn gleision yn yr ardal benodedig yn ystod y tymor yn union cyn tymor y drwydded y gwneir cais amdani. Mae'r erthygl hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi deugain o drwyddedau newydd bob blwyddyn i geiswyr nad oeddent yn dal trwydded gyffelyb i bysgota am gocos a chregyn gleision yn yr ardal benodedig yn ystod y tymor yn union cyn tymor y drwydded y gwneir cais amdani, ar yr amod bod y ceiswyr hynny'n ddeiliaid Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth gyfredol a ddyroddwyd gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr.

Mae erthygl 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau ar y drwydded. Mae'r erthygl hefyd yn darparu bod pob trwydded yn awdurdodi'r person a enwir, yn unig, i bysgota, ac na cheir trosglwyddo'r drwydded i neb arall.

Mae erthygl 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob deiliad trwydded yn cyflwyno manylion o'i ddaliadau, ar, neu cyn, y pumed diwrnod o'r mis sy'n dilyn y mis y cymerwyd y cocos a'r cregyn gleision o'r ardal benodedig.

Mae erthygl 9 yn dirymu Is-ddeddf 5 y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr ac yn gwneud y diwygiad canlyniadol angenrheidiol yng Ngorchymyn 2010.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar gostau busnesau na'r sector gwirfoddol.

The specified area is that part of Wales which previously formed part of the Sea Fisheries Committee's district.

The exceptions to the prohibition set out in article 3 relate to individuals who take by hand not more than 5kg of cockles and 5kg of mussels during any one day, those who take cockles and mussels whilst onboard a registered British fishing boat and those who take cockles and mussels pursuant to an Order made under section 1 of the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967.

Article 4 provides that a permit will be valid between 1 September in one year and 31 August in the following year.

Article 5 provides that an application for a permit must be made to the Welsh Ministers in such form and accompanied by such proof of identity and address as the Welsh Ministers may require. It also provides that such applications may be made on or after 1 July in the year during which the permit being applied for is due to commence.

Article 6 enables the Welsh Ministers to issue a permit to any person who held a similar permit to fish for cockles and mussels in the specified area during the season immediately preceding the season of the permit being applied for. It also enables the Welsh Ministers to issue forty new permits each year to applicants who did not hold a similar permit to fish for cockles and mussels in the specified area during the season immediately preceding the season of the permit being applied for, provided that those applicants must hold a current Foreshore Gatherers Safety Training Certificate issued by the Sea Fish Industry Authority.

Article 7 enables the Welsh Ministers to attach conditions to the permit. It also provides that each permit authorises only the named person to fish and is not transferable to any other person.

Article 8 requires each permit holder to submit a catch return on or before the fifth day of the month following the month during which the cockles and mussels were taken from the specified area.

Article 9 revokes Byelaw 5 of the Sea Fisheries Committee and makes the necessary consequential amendment to the 2010 Order.

A Regulatory Impact Assessment has not been produced for this Order as no impact on the costs of business or the voluntary sector is foreseen.

2011 Rhif 1988 (Cy.219)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Cocos a Chregyn
Gleision (Ardal Benodedig)
(Cymru) 2011

<i>Gwnaed</i>	<i>10 Awst 2011</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>11 Awst 2011</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>1 Medi 2011</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011, a daw i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal benodedig" ("*specified area*") yw'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cocos" ("*cockles*") yw unrhyw bysgod cregyn o'r math *Cerastoderma edule*;

ystyr "cregyn gleision" ("*mussels*") yw unrhyw bysgod cregyn o'r math *Mytilus edulis*;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(2) neu sydd dan berchnogaeth lwyr personau sy'n gymwys i fod yn berchnogion llongau Prydeinig at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno;

(1) 2009 p.23.

(2) 1995 p.21.

2011 No. 1988 (W.219)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Cockles and Mussels
(Specified Area) (Wales) Order
2011

<i>Made</i>	<i>10 August 2011</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>11 August 2011</i>
<i>Coming into force</i>	<i>1 September 2011</i>

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 189(1) and 316(1) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1).

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Cockles and Mussels (Specified Area) (Wales) Order 2011 and it comes into force on 1 September 2011.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order—

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is either registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(2) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that Part of that Act;

"cockles" ("*cocos*") means any shellfish of the type *Cerastoderma edule*;

"Foreshore Gatherers Safety Training Certificate" ("*Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth*") means a document issued by the Sea Fish Industry Authority, certifying the applicant's successful completion of a safety training course for intertidal shellfishing;

(1) 2009 c.23.

(2) 1995 c.21.

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1);

ystyr "pysgod cregyn penodedig" ("*specified shellfish*") yw cocos a chregyn gleision;

ystyr "trwydded" ("*permit*") yw trwydded a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth" ("*Foreshore Gatherers Safety Training Certificate*") yw dogfen a ddyroddwyd gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr, sy'n ardystio bod y ceisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs hyfforddiant diogelwch ar gyfer pysgota rhynglanwol am bysgod cregyn.

Cyfyngiadau ar bysgota

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff neb bysgota am bysgod cregyn penodedig na chymryd pysgod cregyn penodedig o fewn yr ardal benodedig, oni wnânt hynny'n unol ag amodau trwydded.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson—

- (a) sy'n cymryd â llaw ddim mwy na phum cilogram mewn pwysau byw o gocos a phum cilogram mewn pwysau byw o gregyn gleision, ar unrhyw un diwrnod at ei ddefnydd personol;
- (b) sy'n cymryd y pysgod cregyn penodedig tra bo ar fwrdd cwch pysgota Prydeinig; neu
- (c) sy'n cymryd y pysgod cregyn penodedig yn unol â Gorchymyn a wnaed o dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967(2).

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n pysgota am y pysgod cregyn penodedig neu sy'n cymryd y pysgod cregyn penodedig o fewn yr ardal benodedig ddangos copi o'i drwydded os gofynnir iddo wneud hynny gan berson a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i unrhyw berson y gofynnwyd iddo ddangos trwydded yn unol â pharagraff (3) beidio â physgota am y pysgod cregyn penodedig, na chymryd y pysgod cregyn penodedig o fewn yr ardal benodedig, hyd nes bo'r drwydded honno wedi ei dangos.

Parhad trwydded, gwneud cais am drwydded a thelerau trwydded

4. Bydd trwydded yn ddilys o 1 Medi mewn un flwyddyn tan 31 Awst yn y flwyddyn ddilynol.

"mussels" ("*cregyn gleision*") means any shellfish of the type *Mytilus edulis*;

"permit" ("*trwydded*") means a permit issued by the Welsh Ministers pursuant to article 6 of this Order;

"specified area" ("*ardal benodedig*") means the area described in the Schedule to this Order;

"specified shellfish" ("*pysgod cregyn penodedig*") means cockles and mussels; and

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given in section 158 of the Government of Wales Act 2006(1).

Fishing restrictions

3.—(1) Subject to paragraph (2), no person may fish for or take specified shellfish within the specified area unless they do so in accordance with the conditions of a permit.

(2) Paragraph (1) does not apply to any person who—

- (a) takes by hand not more than five kilograms in live weight of cockles and five kilograms in live weight of mussels in any one day for personal consumption;
- (b) takes the specified shellfish whilst onboard a British fishing boat; or
- (c) takes the specified shellfish pursuant to an Order made under section 1 of the Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967(2).

(3) Any person fishing for or taking the specified shellfish within the specified area must produce a copy of that person's permit if requested to do so by a person authorised by the Welsh Ministers.

(4) Any person who has been requested to produce a permit pursuant to paragraph (3) must not fish for or take the specified shellfish within the specified area until that permit has been produced.

Permit duration, application and terms

4. A permit will be valid from 1 September in one year until 31 August in the following year.

(1) 2006 p.32.

(2) 1967 p.83.

(1) 2006 c.32.

(2) 1967 c.83.

5.—(1) Rhaid i berson sy'n dymuno gwneud cais am drwydded gwblhau a chyflwyno cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i gais yn unol â pharagraff (1) gael ei gyflwyno ynghyd â pha bynnag brawf adnabod a phrawf cyfeiriad sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Ceir gwneud cais yn unol â pharagraff (1) ar, neu ar ôl, 1 Gorffennaf yn yr un flwyddyn ag y bwriedir i'r drwydded gychwyn.

6.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi trwydded—

(a) i unrhyw berson a oedd yn ddeiliaid trwydded i bysgota am y pysgod cregyn penodedig neu i gymryd y pysgod cregyn penodedig yn yr ardal benodedig yn ystod y cyfnod o 1 Medi yn y flwyddyn flaenorol hyd at 31 Awst yn y flwyddyn y bydd y drwydded y gwneir cais amdani yn cychwyn; a

(b) i ddeugain ceisydd sy'n ddeiliaid Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth gyfredol.

(2) Bydd ceisiadau am y trwyddedau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi yn unol ag is-baragraff (1)(b) yn cael eu hystyried yn y drefn gronolegol y deuant i law, a dyroddir y deugain trwydded hynny i'r deugain cyntaf o geiswyr pan fo'u cymhwystra i'w cael yn unol â'r is-baragraff hwnnw wedi ei gadarnhau.

7. Yn achos trwydded—

(a) caiff gynnwys pa bynnag amodau mewn perthynas â physgota am y pysgod cregyn penodedig, neu gymryd y pysgod cregyn penodedig, ag a bennir gan Weinidogion Cymru;

(b) mae'n awdurdodi'r deiliad trwydded hwnnw a enwir, yn unig, i bysgota am y pysgod cregyn penodedig, neu i gymryd y pysgod cregyn penodedig o fewn yr ardal benodedig; ac

(c) nid yw'n drosglwyddadwy.

8.—(1) Rhaid i berson sy'n pysgota am bysgod cregyn penodedig, neu sy'n cymryd pysgod cregyn penodedig, o fewn yr ardal benodedig, gyflwyno manylion o'i ddaliadau i Weinidogion Cymru ar, neu cyn, y pumed diwrnod o'r mis calendr sy'n dilyn y mis y bu'n pysgota am y pysgod cregyn hynny neu'n eu cymryd.

(2) Rhaid i fanylion daliadau, at ddibenion paragraff (1), gofnodi—

(a) dyddiad pob daliad o bysgod cregyn penodedig;

(b) cyfanswm pwysau byw yr holl gocos a gymerwyd ar y dyddiad hwnnw;

(c) cyfanswm pwysau byw yr holl gregyn gleision

5.—(1) A person wishing to apply for a permit must complete and submit to the Welsh Ministers an application in such form as the Welsh Ministers may require.

(2) An application pursuant to paragraph (1) must be accompanied by such proof of identity and address as the Welsh Ministers may require.

(3) An application pursuant to paragraph (1) may be made on or after 1 July in the same year as the permit is due to commence.

6.—(1) The Welsh Ministers may issue a permit to—

(a) any person who held a permit to fish for or take the specified shellfish in the specified area during the period from 1 September in the preceding year until 31 August in the year during which the permit being applied for will commence; and

(b) forty applicants who hold a current Foreshore Gatherers Safety Training Certificate.

(2) Applications for the permits that the Welsh Ministers may issue pursuant to sub-paragraph (1)(b) will be considered in chronological order of receipt and those forty permits will be issued to the first forty applicants where eligibility in accordance with that sub-paragraph is established.

7. A permit—

(a) may contain such conditions relating to the fishing for or taking of the specified shellfish as the Welsh Ministers may determine;

(b) authorises only the named permit holder to fish for or take the specified shellfish within the specified area; and

(c) is not transferable.

8.—(1) A person who fishes for or takes specified shellfish within the specified area must submit a catch return to the Welsh Ministers on or before the fifth day of the calendar month following the month in which those shellfish were fished for or taken.

(2) A catch return for the purposes of paragraph (1) must record—

(a) the date of each catch of specified shellfish;

(b) the total live weight of all cockles taken on that date;

(c) the total live weight of all mussels taken on

- a gymerwyd ar y dyddiad hwnnw;
- (ch) y lleoliad y cymerwyd y pysgod cregyn penodedig ohono; a
- (d) pa bynnag wybodaeth bellach a fynir gan Weinidogion Cymru ac yr hysbysir y deiliad trwydded ohoni o bryd i'w gilydd.

Dirymu a diwygio canlyniadol

9.—(1) Dirymir, mewn perthynas â Chymru, Is-ddeddf 5 (Trwydded i Bysgota am Gocos (*Cerastoderma edule*) a Chregyn Gleision (*Mytilis edulis*))(1) y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru blaenorol(2).

(2) Yn y Tabl yn Atodlen 4 i Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010(3), dileer y rhes sy'n ymwneud ag Is-ddeddf 5.

that date;

- (d) the location from which the specified shellfish were taken; and
- (e) such further information as may be required by the Welsh Ministers and notified to the permit holder from time to time.

Revocation and consequential amendment

9.—(1) Byelaw 5 (Permit to Fish for Cockles (*Cerastoderma edule*) and Mussels (*Mytilis edulis*))(1) of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee(2) is revoked in relation to Wales.

(2) In the Table in Schedule 4 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010(3) delete the row relating to Byelaw 5.

Alun Davies

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, under authority of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, one of the Welsh Ministers

10 Awst 2011

10 August 2011

(1) O 1 Ebrill 2010 ymlaen, mae Is-ddeddf 5 y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru blaenorol yn cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol, mewn perthynas â'r un ardal o Gymru ag yr oedd yr is-ddeddf honno'n gymwys iddi'n wreiddiol, yn rhinwedd erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C.42)) ac Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw.

(2) Diddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru mewn perthynas â Chymru ar 1 Ebrill 2010, wrth i erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C.42)) ddwyn i rym adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), gyda'r effaith o ddiddymu Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p.38).

(3) O.S. 2010/630 (C.42).

(1) From 1 April 2010, Byelaw 5 of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee has effect as if made by the Welsh Ministers in a statutory instrument in relation to the same area of Wales as the area to which that byelaw originally applied by virtue of article 13(3) of and Schedule 4 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010 (S.I. 2010/630 (C.42)).

(2) The North Western and North Wales Sea Fisheries Committee was dissolved, in relation to Wales, on 1 April 2010 when article 3 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010 (S.I. 2010/630 (C.42)) brought into force section 187 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23), with the effect of repealing the Sea Fisheries Regulation Act 1966 (c.38).

(3) S.I. 2010/630 (C.42).

ATODLEN

Erthygl 2

YR ARDAL BENODEDIG

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 2, yr ardal benodedig yw'r gyfran o'r môr sydd o fewn chwe milltir forol i'r gwaelodlinau yng Nghymru ac o fewn y terfynau canlynol—

- (a) yn y gogledd, llinell a dynnir rhwng y cyfesurynnau yn aber Afon Dyfrdwy, a bennir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(1); a
- (b) yn y de, llinell a dynnir i'r gogledd-orllewin cywir o eithafbwynt gogleddol Trwyn Cemaes yn sir Ceredigion.

2. Nid yw'r ardal benodedig yn ymestyn uwchlaw llinell a dynnir yng ngheg neu gerllaw ceg pob afon neu ffrwd sy'n llifo i'r môr neu i unrhyw aber, neu geg yr aberoedd, o fewn terfynau'r ardal benodedig fel a ganlyn—

- (a) llinell a dynnir ar draws afon Dyfrdwy (Dee) o Drwyn Hilbre i eithafbwynt gogledd-orllewinol Ynys Hilbre ym Mwrdeistref Fetropolitanaid Cilgwri, ac oddi yno at y goleudy nas defnyddir mwyach yn y Parlwr Du yn Sir y Fflint;
- (b) llinell a dynnir ar draws afon Clwyd ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A548 yn y Rhyl;
- (c) llinellau a dynnir ar draws afonydd Conwy ac Abergwyngregyn, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Conwy ac Abergwyngregyn yn eu trefn;
- (ch) llinell a dynnir ar draws afon Seiont ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yng Nghaernarfon;
- (d) llinell a dynnir ar draws ceg Bae'r Foryd (afon Gwyrfa) o Dŷ Calch at y polyn fflag yn Fort Belan;
- (dd) llinell a dynnir ar draws afon Cefni, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A4080 ym Malltraeth;
- (e) llinell a dynnir ar draws afon Soch ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A499 yn Abersoch;
- (f) llinell a dynnir ar draws afon Erch, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont y rheilffordd yn Harbwr Pwllheli;
- (ff) llinell a dynnir ar draws afon Rhyd-hir, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario Ffordd-y-Còb ar ochr orllewinol Harbwr Pwllheli;

SCHEDULE

Article 2

SPECIFIED AREA

1. Subject to paragraph 2, the specified area is so much of the sea within six nautical miles from the baselines in Wales, as lies within the following limits—

- (a) on the north, a line drawn between the co-ordinates in the Dee Estuary set out in Schedule 3 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(1); and
- (b) on the south, a line drawn true north-west from the northern extremity of Cemaes Head in the county of Ceredigion.

2. The specified area does not extend above a line drawn at or near the mouth of every river or stream flowing into the sea or into any estuary, or of the estuaries, within the limits of the specified area as follows—

- (a) a line drawn across the river Dee (Dyfrdwy) from Hilbre Point to the north-western extremity of Hilbre Island in the Metropolitan Borough of Wirral and then to the disused lighthouse at the Point of Ayr, in the county of Flintshire;
- (b) a line drawn across the river Clwyd, along the seaward side of the bridge carrying the A548 road at Rhyl;
- (c) lines drawn across the rivers Conwy and Aber, along the seaward side of the railway bridges across the said rivers near Conwy and Aber respectively;
- (d) a line drawn across the river Seiont, along the seaward side of the bridge carrying the A487 road at Caernarfon;
- (e) a line drawn across the mouth of Foryd Bay (river Gwyrfa) from Tŷ Calch to the flagstaff at Belan Fort;
- (f) a line drawn across the river Cefni, along the seaward side of the bridge carrying the A4080 road at Malltraeth;
- (g) a line drawn across the river Soch, along the seaward side of the bridge carrying the A499 road at Abersoch;
- (h) a line drawn across the river Erch, along the seaward side of the railway bridge at Pwllheli Harbour;
- (i) a line drawn across the river Rhyd-hir, along the seaward side of the bridge carrying the Embankment Road at the western side of Pwllheli Harbour;

(1) O.S. 1999/672.

(1) S.I. 1999/672.

- (g) llinell a dynnir ar draws afon Glaslyn, ar hyd ochr y môr i'r còb ger Porthmadog;
- (ng) llinellau a dynnir ar draws afonydd Dwyrdd ac Artro, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Gorsafodd Llandecwyn a Llanbedr a Phen-sarn, yn eu trefn.
- (h) llinellau a dynnir ar draws afonydd Ysgethin a Dysynni, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Tal-y-bont a Thonfannau, yn eu trefn;
- (i) llinell a dynnir ar draws afon Mawddach, o'r pwynt ar ei glan ogleddol lle mae ffrwd Cwm-llechen yn ymuno â hi ger y Bont-ddu, hyd at y pwynt ar y lan ddeheuol lle mae ffrwd Gwynant yn ymuno â hi;
- (j) llinell a dynnir ar draws afon Dyfi, o'r trwyn yn Nhrefri at ategwaith de-orllewinol pont y rheilffordd ar draws ffrwd Tre'r-ddôl (afon Cletwr);
- (l) llinell a dynnir ar draws afon Aeron, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yn Aberaeron;
- (ll) llinell a dynnir ar draws afon Teifi, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yn Aberteifi; ac
- (m) llinell a dynnir ar draws pob afon neu ffrwd nas enwir uchod, a'r llinell honno'n barhad o'r arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw.
- (j) a line drawn across the river Glaslyn, along the seaward side of the embankment near Porthmadog;
- (k) lines drawn across the rivers Dwyrdd and Artro, along the seaward side of the railway bridges across the said rivers near Llandecwyn and Llanbedr and Pen-Sarn Stations respectively;
- (l) lines drawn across the rivers Ysgethin and Dysynni, along the seaward side of the railway bridges across the said rivers near Tal-y-bont and Tonfannau respectively;
- (m) a line drawn across the river Mawddach, from the point at which it is joined on the north shore by the Cwm-llechen stream near Bontddu to the point on the south shore where it is joined by the Gwynant stream;
- (n) a line drawn across the river Dyfi, from the point at Trefri to the south-western abutment of the railway bridge across the Tre'r-ddôl stream (river Cletwr);
- (o) a line drawn across the river Aeron, along the seaward side of the bridge carrying the A487 road at Aberaeron;
- (p) a line drawn across the river Teifi, along the seaward side of the bridge carrying the A487 road at Cardigan; and
- (q) a line drawn across every river or stream not specified above, such line being in continuation of the coast at mean high water springs.